

Canolfan iaith – Ysgol Henry Richard, Tregaron

Y sefyllfa bresennol

Cwblhawyd y gwaith ar Ganolfan Iaith Tregaron ddiwedd mis Mawrth 2016 o fewn yr amserlen ac o fewn y gyllideb. Mae'r Ganolfan wedi ei lleoli ar Gampws Ysgol Uwchradd Tregaron, sydd yn y broses o gael ei datblygu i fod yn Ysgol 3-16 oed. Derbyniwyd grant o £150,000 wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer adnewyddu dwy ystafell yn yr ysgol yn Ganolfan Iaith, a chreu mynedfa fel y gellid cloi'r adnodd o weddill yr ysgol ar gyfer defnydd cymunedol, tu allan i oriau ysgol; gyda'r Awdurdod Lleol yn ariannu'r gweddill. Agorwyd y Ganolfan yn ystod tymor yr haf 2016, felly mae yn ei dyddiau cynnar o fodolaeth.



Lluniau – cyn i'r gwaith gael ei gwblhau



Lluniau – y Ganolfan iaith wedi i'r gwaith gael ei gwblhau



Yr Uchafbwyntiau hyd yma

Mae'r Ganolfan iaith wedi cael ei defnyddio at ystod eang o weithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg, sydd yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell ddysgu ar gyfer hwyrdyfiaid uwchradd er mwyn eu galluogi i gael mynediad i wersi prif ffrwd Cyfrwng Cymraeg.
- Cefnogi projectau arferion iaith y sector Uwchradd
- Lleoli radio ysgol yn yr adeilad
- Ymweliad gan Anni Llŷn (Barddoniaeth) a Tudur Phillips (Clocsió)

- Gweithgareddau a man cyfarfod y Clwb Cymreictod
- Gweithgareddau Diwrnod T.Llew Jones
- Gweithgareddau Pontio disgyblion blwyddyn 6 yr ardal.
- Man cyfarfod gyda'r nos ar gyfer project "Gweithredu'n Lleol"

Yr her ar gyfer y flwyddyn i ddod

Y prif her ar gyfer y flwyddyn i ddod bydd cwblhau'r elfen gynradd o'r Ysgol 3-16 oed fel y gellid defnyddio'r Ganolfan Iaith i'w llawn potensial. Golyga hyn y bydd modd tynnu grwpiau o ddisgyblion oed cynradd ynghyd â'r oed uwchradd presennol allan o'r dosbarth er mwyn gloywi iaith, gan fod yr adnodd wedi ei leoli ar campws yr ysgol. Bydd hefyd yn hwyluso gydag ail-integreiddio hwyrddyfodiaid i'r ystafell ddosbarth, ynghyd â galluogi darparu cyrsiau dysgu Cymraeg/ gloywi iaith i rieni.

Mae'r gweithgareddau isod eisoes wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod:

- Lleoliad ar gyfer Sgwadiâu Serennu Cynradd (Ionawr '17 ymlaen)
- Syrjeri wythnosol ar ôl ysgol i athrawon ar gyfer Gloywi a pharatoi adnoddau cyfrwng Cymraeg addas
- Annog gwersi Cymraeg i rieni a gofalwyr a'r gymuned (hyn wedi methu digwydd ynghynt oherwydd ail strwythuro Canolfannau Cymraeg i Oedolion)
- Sesiwn stori i blant lau yn ystod oriau Ysgol ac adeg y gwyliau (Cered a Llyfrgelloedd Ceredigion)
- Lleoliad ar gyfer gloywi/integreiddio hwyrddyfodiaid ar draws yr ystod oedran pan fydd y campws yn un 3-16 oed

LLWYDDIANT

Prosiect gwirfoddolwyr –

- Recriwtio a hyfforddi 30 o wirfoddolwyr
- Arwain ar groesawi ymwelwyr, cynorthwydd digwyddiadau, gwasanaethau ty ayyb
- Bwriad i ail recriwtio er mwyn denu grŵp ychwanegol o wirfoddolwyr i sicrhau presenoldeb trwy'r dydd, ac ar benwythnosau.

Ystafelloedd llogi –

- Cyrraedd targedau misol o £ 3283.
- Diwrnod agored i fusnesau a mudiadau lleol yn llwyddiant mawr, ac wedi creu partneriaith da gyda mudiadau megis Chwaraeon Cymru, Cyfeillion Y Ddaear, Cadw'ch Cymru'n Daclus, Capital Law ayyb.
- Amrywiaeth eang o ddefnydd o'r stafelloedd
- Adborth positif iawn i'r cyfleusterau

Digwyddiadau –

- Digwyddiadau mawr cyhoeddus megis EURO 2016 a Road Dahl wedi golygu llwyddiant mawr i wasanaeth y Caffi Bar, y lle yn orlawn. Parhau i fanteisio ar ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol y ddinas.
- **Mehefin – Rhagfyr:** Rhaglen llawn o ddigwyddiadau cymdeithasol wedi trefnu gan Menter Caerdydd ar gyfer Yr Hen Lyfrgell, ac wedi profi yn llwyddiant mawr, e.e. gigs, blasu gwin, nosweithiau DJ, Panel holi, digwyddiadau llenyddiaeth, teithiau hanes, Amser stori wythnosol, arddangosfa celf, drama plant a fyfyrwyr, cwis misol, clonc dros ginio wythnosol, nosweithiau comedi, lansiadau llyfrau a llawer mwy.

Cynllun ffrindiau –

- Parhau i gynyddu niferoedd ffrindiau, ac wedi cyrraedd y targed o 200, yn gyfanswm o £14K werth o incwm y flwyddyn.

Llwyddiant ariannol –

- Grant Cyngor Caerdydd - £8k tuag at ddatblygu cyfleusterau adloniant i gynyddu'r cynnig.
- Grant loteri werth £5k i gyfrannu at gefnogi gweithgareddau'r Ganolfan.
- Yn y proses o ymgeisio am grant loteri £250k i gyfrannu at staffio – Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu.
- Llwyddo i gofrestru fel elusen ym mis Medi.
- Wrthi yn datblygu bwrdd Yr Hen Lyfrgell. Pump aelod gweithredol dros ben ar y bwrdd a'r hyn o bryd ac yn y broses o benodi pedwar newydd dros y bythefnos nesa.
- Llwyddo i gael gwasanaeth WiFi ar gyfer ardaloedd cyhoeddus Yr Hen Lyfrgell.

HERIAU

Tenantiaid yn tynnu allan

- Clwb Ifor Bar (Caffi Bar) a Mudiad Meithrin (Creche) wedi tynnu mas ar ol 9 mis o weithredu.
- Pwysau ariannol – ardaloedd wag yn disgyn dan reolaeth Yr Hen Lyfrgell.
- Menter Caerdydd, Prif Bartner wedi rhaid cymryd ymlaen prosiect y Caffi Bar er mwyn sicrhau fod hwb canolog yr adeilad ar agor nes fod partner newydd yn ymrwymo – hwn yn bwysau ychwanegol ar staff a gwasanethau MC yn y gymuned
- Pwysau gwaith/ diffyg amser i gynllunio hir tymor. Diffyg staff yn golygu mwy o amser staff yn cael i flaenoriaethu gyda gwaith ymarferol yn hytrach na gwaith mwy strategol.
- Effeithio enw da'r ganolfan.

Trafferthion cynnal a chadw'r adeilad

- Llawer o amser staff yn mynd tuag at ddelio gyda materion cynnal a chadw. Cyngor Caerdydd fel Landlord yn golygu bod materion bach iawn yn gallu cymryd wythnosau i'w sortio.
- Costau heb ei gyllidebu
- Effeithio enw da'r ganolfan/ effeithio ar brofiadau ymwelwyr

Anawsterau codi ymwybyddiaeth o'r adeilad

- Rheolai llym ar beth sydd yn bosib ar ran hysbysebu yn allanol oherwydd bod y ganolfan yn adeilad rhestredig.
- Diffyg cyllid i gael effaith mawr
- Partneriaeth gyda'r Cyngor a Stori Caerdydd gallu arwain at her o ran hyrwyddo.

Diffyg Staff

- Un staff llawn amser sef y Cyfarwyddwr ac un cynorthwydd, trwy gynllun prentisiaeth (cytundeb y swydd yma yn dod i ben canol Rhagfyr).
- Llawer o amser Prif Weithredwr Menter Caerdydd rhaid mynd mewn i ddelio gydag elfennau yn ymwneud gyda tendr, llywodraethant, ariannol ayyb, hwn yn cael effaith ar wasanaethau'r Fenter.
- Cymhariaeth - Canolfan Chapter yng Nghaerdydd yn cyflogi dros 30 o staff llawn amser.
- Dim cyllid i gyflogi gofalwr.

Ty'r Gwrhyd, Pontardawe

Mae Canolfan Gymraeg Tŷ'r Gwrhyd wedi bod yn weithredol ers Ebrill 2016 ac fe agorwyd y ganolfan yn swyddogol gan Alun Davies AC ym mis Gorffennaf 2016. Cynhaliwyd diwrnod agored i'r ysgolion a'r gymuned leol er mwyn cyflwyno'r adnoddau ddiwedd Ebrill a bu dros 80 o wahoddedigion yn yr Agoriad Swyddogol ar 7 Gorffennaf a gafodd sylw yn y wasg leol a chenedlaethol. Ers hynny, mae'r Ganolfan wedi croesawu gwleidyddion lleol a chenedlaethol o bob safbwynt gwleidyddol ac wedi ennyn cefnogaeth ganddynt oll.

Erbyn Medi 2016, mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe ac Urdd Gobaith Cymru â swyddfeydd yn y Ganolfan. Mae Swyddog Datblygu Merched y Wawr Gorllewin Morgannwg a Hyrwyddo Clybiau Gwawr y De hefyd yn gweithio o'r adeilad a Swyddog Cymraeg i Blant Lleol. Mae hyn wedi galluogi i'r Ganolfan weithredu fel siop un stop ar gyfer gwybodaeth a gwasanaethau Cymraeg yn yr ardal ac wedi cyfoethogi gweithgarwch y Ganolfan wrth i'r mudiadau hyn gyd-gynllunio a chefnogi gwaith ei gilydd. At hynny, derbyniwyd cefnogaeth werthfawr o du S4C a ddarparodd ddyluniadau trawiadol o gymeriadau Cyw er mwyn eu gosod ar waliau o fewn yr adeilad – mae'r rhain wedi profi'n atyniadol iawn i'r plant lleiaf a sicrhau awyrgylch groesawgar ar eu cyfer.

Mae siop lyfrau ac adnoddau Cymraeg Tŷ'r Gwrhyd yn llwyddo denu ymwelwyr i'r Ganolfan o bob oed ac mae'r gwerthiant yn gyson. Ar hyn o bryd mae'r siop ar agor bob dydd Llun, Mercher, Gwener a bore Sadwrn yn sgil diffyg cyllid refeniw digonol i dalu am weithiwr llawn amser, ond rydym yn ymchwilio ar hyn o bryd i'r defnydd o wirfoddolwyr. Mae'r siop wedi ymweld â digwyddiadau fel Cynhadledd Siarter Iaith Castell-nedd Port Talbot er mwyn codi ymwybyddiaeth, a ffeiriau ysgolion Cymraeg lleol.

Ers dod yn weithredol, mae defnydd o'r Ganolfan gan fudiadau a sefydliadau wedi cynyddu'n gyson. Mae 10 o ddosbarthiadau Dysgu Cymraeg yn cael eu cynnal yn y Ganolfan yn wythnosol yn ogystal â chyrsgiau a sesiynau dysgu anffurfiol, fel y cwrs cymunedol 'Cymru Ddoe a Heddiw', sy'n annog dysgwyr uwch i gymysgu gyda siaradwyr rhugl wrth gynnig sgyrsgiau gan enwau adnabyddus ar bynciau diwyllianol a hanesyddol amrywiol – e.e. hanes cylch llenyddol Cadwgan, tafodiaith Cwm Tawe, traddodiadau a cherddoriaeth gwerin Cwm Tawe.

Mae'r Fenter Iaith yn cynnal sesiynau amrywiol ar gyfer plant o bob oed, o fabis hyd at 18 oed, gan gynnwys y bore Sbri Sadwrn misol ar gyfer plant dan 7, Ysgol Roc yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer arddedwyr, a chlwb Sgiliaith wythnosol ar gyfer plant Blynnyddoedd 5-7.

Mae staff Academi Hywel Teifi wedi cynnal digwyddiadau addysgiadol/diwyllianol amrywiol cyson, gan gynnwys sgyrsgiau a lansiadau llyfrau sy'n gweddu ac yn debyg o ddenu cynulleidfya leol – e.e. lansiad cyfrol yr Athro Brifardd Alan Llwyd ar Gwenallt, Noson i Gofio Trychineb Aberfan gyda'r Athro Christine James a'r Athro E. Wyn James a digwyddiadau cymdeithasol fel dangos gemau pêl-droed Cymru yn Ewro 2016.

Mae Clwb Darllen Cymraeg Cwm Tawe a Merched y Wawr Pontardawe yn cwrdd yn y Ganolfan. Llwyddwyd i logi ystafelloedd cyfarfod yn rheolaidd i fudiadau fel yr Urdd, ysgolion lleol, ERW, Mentrau Iaith Cymru, papur bro y Llais, a grwpiau treftadaeth lleol gyda phob un yn gwerthfawrogi'r adnoddau digidol, modern. Mae modd i bobl leol alw mewn am banded a chacen neu gellir darparu ciniawau ar gyfer y sawl sy'n trefnu cyfarfodydd gydol dydd, gyda'r Ganolfan yn troi at fusnesau a chyflenwyr lleol er mwyn darparu'r arlwyyo. Mae hyn wedi sicrhau cefnogaeth leol dda i'r fenter, ac wedi osgoi cystadlu diangen.

Y prif her yw sicrhau adnoddau dynol digonol ar gyfer staffio'r Ganolfan fel bod modd agor derbynfa'r Ganolfan yn feunyddiol, a sicrhau cefnogaeth staffio ddigonol ar gyfer y grwpiau a mudiadau sy'n cynnal gweithgareddau yn y Ganolfan – h.y. croesawu grwpiau a chloi'r Ganolfan wedi digwyddiadau. Tra bod y gwaith strategol yn cael ei gyflawni gan staff Academi Hywel Teifi, byddai medru cyflogi rhywun llawn amser i gyflawni'r dyletswyddau gweinyddol, marchnata a rheoli adeilad yn sicrhau bod yr adnodd gwerthfawr a gweithredol yma yn cyrraedd y lefel uchaf bosib o lwyddiant.



Popdy - Canolfan Hybu'r Gymraeg Bangor: Diweddariad Menter Iaith Bangor

Sefyllfa ar hyn o bryd

Cynhaliwyd lawns swyddogol Popdy ar ddydd Gwener 14eg o Hydref yng nghwmni Alun Davies AC Gweinidog dros y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Drannoeth ar ddiwrnod Shwmai/ Sumae cafwyd Diwrnod Agored gyda arlwy eang o weithgareddau i bob oedran. Cafwyd cryn sylw yn y wasg leol a chenedlaethol i'r lawns, sydd wedi codi proffil a diddordeb yn Popdy.

Ers mis Gorffennaf mae Rheolwr a Swyddog Datblygu Menter iaith Bangor wedi bod yn gweithio o Popdy ar ôl cyfnod cynefino yn swyddfa Hunaniaith Caernarfon. Ers dechrau mis Medi mae 8 o swyddogion Rhanbarth Eryri o'r Urdd wedi adleoli i lawr cyntaf Popdy (o safle blaenorol ym Mharc Menai). Rhennir gofod yr ail lawr at ddibenion MIB a'r Urdd ac mae ar gael hefyd i'w logi. Eisoes cynhaliwyd cyfres o sesiynau codi hyder Cymraeg llafar, cyfarfodydd misol Fforwm ieuencid yr Urdd a gwersi yoga wythnosol. Y gobaith yw cynyddu'r defnydd masnachol traws-sectorol ac ymhlith unigolion llawrydd, er mwyn cael mwy i ymweld a defnyddio'r adeilad a chodi proffil y Fenter iaith ym Mangor.

Prif lwyddiannau

Cychwyn cyflawni rhai o dargedau Hunaniaith trwy brosiectau penodol sef

- prosiect cynnal cyfres o weithgareddau awyr agored i 15 o ddisgyblion blwyddyn 7 Ysgol Tryfan er mwyn codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd cyflogaeth cyfrwng Cymraeg lleol a cheisio newid agweddau a defnydd o'r iaith trwy ddulliau amgen lle mai sgil effaith y gweithgaredd yw codi proffil y Gymraeg.
- prosiect Cymreigio busnesau Bangor lle bydd unigolyn yn cynnal ymgynghoriadau a'r sector chwaraeon, meithrinfeydd preifat a darparwyr gofal iechyd cychwynnol gyda nod deublyg i (i) gynyddu defnydd gweledol o'r Gymraeg a (ii) darparu cyfres o sesiynau codi hyder Cymraeg llafar 25 o staff yn y sectorau hyn. Cynhelir y sesiynau yn Popdy.
- Prosiect taith tîm pêl-droed Cymru yn yr Ewros gydag Owain Tudur Jones (a Chymdeithas Pêl-droed Cymru) yn ymweld ag ysgolion Bangor a Choleg Menai gan roi cyflwyniad i ddisgyblion/ rhieni a myfyrwyr am y daith, y defnydd effeithiol a wnaed o'r Gymraeg a hunaniaith Gymreig mewn cyd-destun amlieithog Ewropeaidd. Bydd Owain Tudur hefyd yn cynnal 2 sesiwn ymarfer pêl-droed gyda detholiad o 44 disgyblion Cynradd a 44 Uwchradd dros wyliau'r Nadolig.

Yn uniongyrchol rydym hefyd wedi cychwyn prosiect Arweinwyr iaith gwirfoddol ymhlith disgyblion Chweched isaf ysgol uwchradd Tryfan, fydd yn annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith eu cyfoedion a staff ategol yr Ysgol. Maent wedi adnabod disgyblion blwyddyn 7 fel grŵp i'w dargedu yn y tymor byr a bydd gan yr Arweinwyr iaith rôl gynorthwyo ymarferol yn y prosiect gweithgareddau awyr agored uchod. Ei prosiect nhw yw hwn a byddant yn adrodd fel is-grŵp i Gyngor yr ysgol a'r

gyflawniad. Mewn gwirionedd dyma osod y Siarter iaith ar waith ond yn fwy holistaidd ac organig.

Heriau i'r dyfodol

Y prif her yw rheoli disgwyliadau gydag ond un aelod o staff. Mae angen cyflawni'r targedau a gytunwyd rhwng Hunaniaith a Llywodraeth Cymru yn ogystal â dilyn trywyddau a blaenoriaethau MIB, a cheisio ymateb i geisiadau, ymholiadau a disgwyliadau mwy cyffredinol sy'n codi (nad oes modd eu rhagweld bob tro). Casglwyd eisoes bod angen cyniwair tîm o wirfoddolwyr i gyfrannu at gynnal bwrlwm ac ystod amrywiol gweithgareddau MIB, ac mae hynny eisoes ar droed.

Gorolwg cryno o ddatblygiadau blwyddyn 1

Mae'r **Atom** yn mynd o nerth i nerth!

Nid yn unig y mae'r ganolfan wedi talu ei ffordd yn ariannol yn ystod blwyddyn gyntaf ei bodolaeth, ond y mae hefyd wedi denu dros 10,000 o unigolion trwy ei drysau i'r caffi neu ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau a drefnwyd o'i mewn. Manteisiodd dros 70 o asiantaethau, busnesau, a chlybiau cymdeithasol amrywiol ar y cyfleusterau gan ddefnyddio'r ystafelloedd a'r ardal agored i ddiwallu eu hanghenion amrywiol. Braff yw gallu cofnodi ein bod wedi aros yn driw i'n hegwyddorion a'n polisi o sicrhau bod digwyddiadau neu weithgareddau'r ganolfan wedi cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n sicr yn ddwyieithog gyda chyfieithydd allanol yn bresennol ar gyfer rhai digwyddiadau.

Mae'r ffaith fod y ganolfan yn hyfyw mor gynnar yn ei hanes yn golygu y gall y Brifysgol ddatblygu cynllun strategol mwy uchelgeisiol ar ei chyfer ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Bydd y cynllun hwnnw'n seiliedig ar nodau ac amcanion gwreiddiol y ganolfan yn ogystal ag ar yr ystod o syniadau a grybwyllwyd mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn **Yr Atom** rai misoedd yn ôl. Mynychodd deugain a rhagor o unigolion y cyfarfod hwnnw a bu'r ymateb i weithgarwch cychwynol **Yr Atom** yn hynod gadarnhaol. Darparwyd pamffled dwyieithog ar gyfer y cyfarfod ac amgaeir copi PDF ohono er gwybodaeth. Hyderir y bydd *Cynllun Strategol Yr Atom 2016/17-2017/18* yn ei le erbyn canol Rhagfyr 2016.

Mae'r sail ariannol gadarn hefyd wedi galluogi'r Brifysgol i fuddsoddi mewn swydd ran amser o'r newydd a fydd yn caniatáu i'r rheolydd genhadu mwy ymysg busnesau tref Caerfyrddin yn y dyfodol.

Blaenoriaethau Blwyddyn 2

1. Datblygu cynllun strategol ynghyd â rhaglen waith fanwl ar gyfer **Yr Atom** am y ddwy flynedd nesaf a fydd yn canolbwyntio ar (i) ddatblygu mwy o weithgareddau amrywiol trwy'r Gymraeg yn y ganolfan ac (ii) ar gryfhau ei hymwneud â'r gymuned fusnes yn nhref Caerfyrddin.
2. Sefydlu fforwm ieuencid ar gyfer **Yr Atom** a fydd mewn sefyllfa i gynghori a chefnogi'r ganolfan yn rheolaidd.
3. Sefydlu tîm o wirfoddolwyr i gynllunio, trefnu a chefnogi rhaglen o weithgareddau yn **Yr Atom** yn ystod y flwyddyn.

4. Creu calendr o ddigwyddiadau'r ganolfan dymor o flaen llaw.
5. Cryfhau'r cysylltiad rhwng myfyrwyr Cymraeg y brifysgol a'r **Atom**.
6. Gweithio gyda'r ysgolion lleol i sefydlu clwb ar ôl ysgol i gefnogi gwaith academaidd uwchradd drwy'r Gymraeg.
7. Poblogi'r cyfeiriadur busnes sydd wedi ei greu ar wefan **Yr Atom** gan gynnal digwyddiad i lansio'r adnodd yn gynnar yn 2017.
8. Sefydlu prosiectau gyda rhai o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg y dref i gynnal digwyddiadau Cymraeg yn **Yr Atom** ar gyfer eu disgyblion, rhieni ac athrawon.
9. Datblygu a darparu pecyn o wasanaethau iaith ar gyfer busnesau'r dref.
10. Datblygu siarter iaith fusnes i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn glywedol ac yn weledol wrth grwydro'r dref.
11. Ceisio am grantiau priodol mewn cydweithrediad â Menter Gorllewin Sir Gâr a mudiadau/sefydliadau eraill.
12. Cydweithio'n agos â'r Cyngor Sir ar y datblygiadau cyffrous sydd ar droed i greu ardal awyr agored ddiwylliannol yng nghanol y dref.

Dymuna'r **Atom** ddiolch yn ddiffuant i Lywodraeth Cymru a'i swyddogion am eu cefnogaeth barhaus ac i dref Gaerfyrddin a'i phobl am gefnogi'r ganolfan yn ystod y cyfnod sefydlu. Hyderwn y bydd modd adeiladu ar lwyddiannau'r flwyddyn gyntaf drwy ddatblygu ystod pellach o wasanaethau a digwyddiadau Cymraeg fel rhan o'r broses barhaus o Gymreigio tref Caerfyrddin.

GRANT CANOLFANNAU A GOFODAU DYSGU CYMRAEG 2015-16 - Ynys Môn

Canolfan Bro Alaw - Gyda'r newidiadau a wnaethpwyd i'r Ganolfan gyda grant 2015-16, mae'r Ganolfan wedi cael gweddnewidiad ac yn llawer mwy cysurus ar gyfer pobl ifanc.

Ar hyn o bryd, mae'n lletya:

Swyddfa Sirol yr Urdd

Clwb Ffermwyr Ifanc Bodedern

Clwb Ieuenctid Bodedern

Ystafell Gyffredin i flwyddyn 11 yn ddyddiol

Yr Ysgol - Golyga hyn bod y Ganolfan yn caniatáu i bobl ifanc o'r ysgol alw i mewn yn ddyddiol yn Swyddfa'r Urdd, ac maent yn gallu defnyddio'r teledu osodwyd oddi fewn i ddrws y Ganolfan i sicrhau bod gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg yr ardal yn cael eu lledaenu i holl blant yr ysgol.

Yr Urdd - Mae aelodaeth yr Urdd wedi codi o 2768 yn 14-15 i 2877 yn 2015-16. Mae'r Urdd hefyd wedi bod yn defnyddio'r gegin ar gyfer darparu bwyd yn yr Eisteddfod Dalgylch, a hefyd ar gyfer gwneud brechwast i'r aelodau fu'n cysgu allan mewn bocsys carbord o dan y ser i godi arian i Di-gartref Ynys Môn a chodi ymwybyddiaeth ymysg yr ieuenctid o sefyllfa'r bobl ifanc yma ar yr ynys. Ar hyn o bryd, mae'r **Clwb Ffermwyr Ifanc** yn denu rhwng 55 a 60 o bobl ifanc o flwyddyn 7 i 26 oed bob nos Fawrth. Mae hyn yn gynydd o 20 aelod ar aelodaeth y llynedd.

Mae'r **Clwb Ieuenctid** yn denu rhwng 55 a 60 o bobl ifanc ar hyn o bryd, sydd hefyd yn 25 aelod yn uwch na'r aelodaeth y llynedd.

Hefyd cynhaliwyd y **Seminar Staff Gwasanaeth Ieuenctid** yno ar Hydref 8fed, gyda chyflwyniad wedi ei wneud i'r staff ar Safonau Iaith y Cyngor. Bydd disgwyliad yn awr i bob Clwb Ieuenctid gyflwyno Cynllun Gweithredu i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg erbyn diwedd Tachwedd/dechrau Rhagfyr. Drwy hyn, gobeithir lledaenu ewyllys da a chodi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd yr iaith o ran cyflogaeth i'r dyfodol ymysg pobl ifanc.

Mae trefniadau ar y gweill yn awr i fod yn defnyddio'r Ganolfan hefyd yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol i gyd-fynd hefo Maes B.

Cronfa Offer newydd

Offer Radio – cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant i Arweinyddion yr Urdd a'r Gwasanaeth Ieuenctid ond hyd yma siomedig yw'r defnydd wedi bod o'r offer yma gyda dim ond Ysgol y Graig wedi ei ddefnyddio, a threfniadau mewn llaw ar gyfer mynd i Ysgol Gynradd Bodedern ac Ysgol Llanfawr.

Offer Cameras a Golygu Fideos

Mae Gweithgareddau Pel-droed bl 7ac 8; Peldroed 9 a 10, Pel-rwyd 7 ac 8, Cynllun CLIC ar y cyd hefo Menter Mon, Carolau Alaw, Llanast Llanrwst, Carolau Glannau Menai, Fideo Gwrth Fwlio Adran Gaerwen, a Taith Disney i gyda wedi cael eu rhannu ar YouTube.

Ipads – wedi eu defnyddio dan dim o 3 o Ynys Mon yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer rhoi canlyniadau a chlipiau fideos gyda diweddariadau ar dudalennau a chyfrifon Facebook, a Twitter Rhanbarthau ar draws Cymru.

Offer Disgo a PA

Wedi ei Defnyddio yn Ysgol Llanfairpwll (120 x 2); Ysgol Morswyn (80 x 2), Adran Henblas (45); Ysgol Carreglefn (30); Disgo Noson Wobrwyo Gwirfoddolwyr (60); Rimbojam Cylch Glannau Menai (200); Eisteddfod Glannau Menai (400); Eisteddfod Rhanbarth Cynradd (1400); Eisteddfod Rhanbarth Dawns (700); Disgo Cylch Alaw/Cybi (300); Disgol Dylch Cefni (150); Disgo Cylch Eilian (100); GIG Menter Mon (30); Gig Menter Mon – Bocswn – 30.

I'w Ddatblygu

Mae trafodaethau cychwynnol ar y gweill i gyflogi person ifanc i ehangu defnydd o'r offer Radio ac Offer Creu fideos er mwyn cynhyrchu mwy o ddefnyddiau o'r Mudiadau Ieuencid i gyd i ledaenu ymhellach y cyfleon sydd ar gael i bobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg o amgylch yr ynys.

Enid Williams (Gwasanaeth Ieuencid), Eryl Williams (Yr Urdd), Edna Jones (C Ff I)
Tachwedd 1af, 2016

Y Lle, Llanelli

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen rydym wedi cael mwy o geisiadau i ddod a'r Gymraeg i mewn i weithgareddau cymdeithasol cyffredinol. Er nad ydyw wedi bod yn bosib cynorthwyo pawb rydym wedi llwyddo i ddod a'r Gymraeg i mewn i weithgareddau lle nad ydy'r Gymraeg wedi bod o'r blaen. Mae hyn yn cynnwys partneriaethau gyda Cyngor Tref Llanelli, Cymdeithas LBGT Llanelli, Spice Cymru, Academi pêl droed Afia Benjal – Y Gambia (pencadlys yn Llanelli). Oherwydd ein bod yn rhan o'r gymuned leol rydym wedi cael ceisiadau i gyfieithu posteri, cyflwyno yn Gymraeg a gosod bandiau Cymraeg fel rhan o rhaglenni a fyddai wedi digwydd yn Saesneg. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn targedu Cymdeithas Parc Howard a'i Gwyl i'r teulu a Gwyl 'Vintage' Llanelli. Trwy gynnig rhywbeth o safon (offer, bandiau a gwasanaeth am ddim) rydym yn cael ein gweld fel partner defnyddiol ac felly mae'n haws i wthio'r Gymraeg.

O rhan y clwb ieuenctid mae hyn wedi bod yn lwyddiant ysgubol. Ers cyd ysgrifennu'r cais gyda'r Urdd mae C13 Cyf wedi llwyddo i greu gwasanaeth o ddim. Ers cael un unigolyn yn yr wythnos cyntaf rydym bellach yn cael niferoedd uchel gydag ail noson yn cael ei drefnu ym mis Medi. Er ein bod wedi derbyn sylwadau megis 'Beth yw'r pwynt – bydd neb yn troi lan' rydym wedi llwyddo i dargedu cynulleidfa darged gymharol heriol a chreu cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan yr ysgol gan adeiladu perthynas gyda'r bobl ifanc. Y nod fydd i adeiladu ar hyn yn ystod y blynnyddoedd nesaf gan edrych i greu dilyniant ar sail berchnogaeth yn debyg i model y ffermwyr ifanc. Er bod yr Urdd yn talu am 10 wythnos y tymor, mae'r staff a'r gwirfoddolwyr wedi cadw'r clwb ar agor bob wythnos ac hefyd yn ystod y gwyliau. Mae hyn wedi gwneud gryn argraff ar rhieni a'r bobl ifanc.

Ysgol Roc – Rydym wedi cynnal sesiynau wythnosol o'r Ysgol Roc ac mae hyn wedi arwain at nifer o'r plant yn mynd i gael gwersi offerynnol gyda Siop gerddoriaeth Cadno Music. O rhan canlyniadau mae'r siop bellach yn darparu gwersi gitâr, drymiau, bas, piano a llais drwy gyfrwng y Gymraeg. Canlyniad arall yw bod y tiwtor piano Piet Zorn (o'r Almaen) wedi dysgu Cymraeg drwy ddod i gyswllt gyda Y Lle. Gwnaeth gyfrannu ar can Pethau Bychain ac mae'n frwd iawn dros hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n arwain Côr Lleisiau / Voices sydd yn cwrdd yn wythnosol yn y Lle ac maent bellach wedi gosod caneuon Cymraeg fel rhan o'i set ac wedi perfformio yn Aberdewi a nifer o wyliau eraill.

Prosiect Radio – Mae hyn wedi bod yn anodd i'w sefydlu yn iawn am ei fod yn gorfod cael ei wneud gyda grwpiau llai o bobl. Serch hynny rydym wedi trafod gyda'r bobl ifanc ac yn edrych i adnewyddu rhan o'r adeilad fel Stiwdio Aml gyfryngol felly bydd sesiynau radio/golygu fideo a chreu deunydd yn gallu digwydd ar yr un pryd. Bydd hyn yn digwydd yn ystod mis Medi 2016.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi croesawu Cymraeg i Oedolion i'r Lle ar gyfer gwersi ond rydym yn teimlo bod hyn wedi ein rhwystro i wneud y defnydd gorau o flaenoriaethu yr hyn yr ydym am ei wneud a'r gwir bwrpas dros sefydlu'r prosiect, am fod angen ail osod ystafelloedd a chreu sefyllfa addas i ddysgu. Ein nod ym Medi 2016 yw ail edrych ar ein blaenoriaethau gwreiddiol. Byddwn yn cynnal nosweithiau anffurfiol acwstig ar gyfer datblygu bandiau ac unigolion a rhoi cyfle i ddysgwyr i

ymarfer eu Cymraeg. Er bod tipyn o incwm wedi dod o'r ffynhonnell yma, mae angen i ni fod yn driw i'r hyn yr ydym yn ei gredu.

Y wers fwyaf yr ydym wedi dysgu yw i beidio a cheisio bod yn bopeth i bawb. Bellach mae ein pobl ifanc wedi perchnogi'r adeilad ac felly mae'r prosiect wedi troi'n fwy o brosiect datblygu'r Gymraeg o fewn yr oedran yma, felly yn hytrach na mynd ar ôl incwm drwy logi ystafelloedd rydym wedi aros yn driw i adeiladu ar y gwaith yma ac fe fyddwn yn targedu blynyddoedd 6 yr ysgolion cynradd gyda cynllun pontio yn ystod Medi 2016.

Erbyn diwedd 2016 rydym yn gobeithio sefydlu caffi ar gyfer pobl ifanc – fe fydd hyn yn her ond mae'n rhywbeth sydd angen ar yr ardal.

Trwy fod yng nghanol y gymuned a thrwy fod yn bwynt cyswllt naturiol yn y dref rydym wedi llwyddo i godi proffil y Gymraeg nid drwy'r ganolfan ei hunan ond trwy weithredoedd y gwirfoddolwyr. Ein bwriad yw i esblygi'r ganolfan yn ystod y blynyddoedd nesaf i ddarparu mwy o wasanaethau gyda'r ffocws ar ddatblygu iaith yn y dref.

Y Man a'r Lle – Coleg Ceredigion

Cwblhawyd y gwaith adeiladu ar gyfer Canolfan Gymraeg Aberteifi “Y Man a'r Lle” fis Mawrth 2016.

Mae’ adeilad yn cynnig gwagle amlbwrpas ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gyda bar coffi a chegin fechan. Mae ffenestri'r adeilad wedi ei addurno gyda chwpled bwrpasol a luniwyd ar gyfer yr adeilad gan y Prifardd Ceri Wyn Jones:

“Gyda hyn o gyd-dynnu, rhown do iau ar yr hen dŷ.”


Ers mis Mawrth mae’r coleg wedi parhau i weithio i sicrhau bod y Ganolfan yn ateb gofynion grwpiau sydd yn dymuno defnyddio'r gwagle. Cafwyd peth anawsterau gyda sicrhau cyswllt Wifi ar gyfer yr adeilad newydd ond llwyddwyd i'w datrys dros misoedd yr haf ac y bob pwrpas roedd yr adeilad yn barod i'w ddefnyddio ym mis Medi eleni.

Mae’r ganolfan eisoes wedi ei defnyddio gan wahanol grwpiau gan gynnwys: Pwyllgor Golygyddol papur bro Y Dwrgi, Pwyllgor Gwyl Grug Mawr, Pwyllgor Llywio Gwyl y Cynhaeaf, Gwyl Fawr Aberteifi a Chriw Ieuenctid Cylch Aberteifi. Mae’r coleg hefyd yn gwneud defnydd rheolaidd o'r adeilad ar gyfer sesiynau hamdden i fyfyrwyr ynghyd a chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol.

Ddydd Llun 31 o Hydref cynhaliwyd seremoni agoriadol yr adeilad gyda'r Gweinidog dros y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies ynghyd a'r Prifardd Ceri Wyn Jones. Diddanwyd y gynulleidfa gan ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd Aberteifi a myfyrwyr y coleg.

Mae’r coleg ar hyn o bryd yn gweithio gyda Cered i lunio rhaglen hyfforddiant ar gyfer busnesau bach yr ardal ar ddefnydd o'r Gymraeg i hybu busnes.

Y bwriad hefyd yw cynyddu defnydd o'r adeilad dros y misoedd nesaf gan lunio rhaglen o weithgaredd cymunedol ar gyfer gwahanol grwpiau yn y gymuned.



Llwyddiannau

Cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle

- 25 o ddsbarthiadau Dysgu Cymraeg (o lefelau Mynediad i Hyfedredd) yn cael eu cynnal yn CAMU yn wythnosol gyda 80 o staff o weithleoedd lleol yn mynychu yn cynnwys CBSW
- Cyrsiau wedi eu teilwra yn cael eu darparu ar gyfer staff Gwasanaethau Cymdeithasol CBSW/ Moneypenny/AVOW/Sw Caer/Heddlu Gogledd Cymru/Gwasanaeth Tan
- Sesiynau Paned a Sgwrs yn cael eu cynnal bob wythnos gan gynnig cyfle i fynychwyr ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfa anffurfiol
- Clinigau Iaith Gymraeg yn cael eu cynnal bob wythnos - sesiynau galw heibio sy'n cynnig cefnogaeth unigol allan o wersi
- Cyrsiau Methodoleg Iaith yn cael eu cynnal gan Athrawon Ymgynghorol ar gyfer y Gymraeg CBSW i athrawon/cymhorthyddion yn wythnosol.
- Sesiynau Cymraeg yn y Gweithle dwys yn cael eu darparu i fyfyrwyr galwedigaethol o Goleg Cambria mewn meysydd blaenoriaeth megis Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Sesiynau Cymraeg Bob Dydd yn cael eu cyflwyno i staff Coleg Cambria
- Sesiynau Gwella Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer disgyblion Mwy Abl a Thalentog blwyddyn 10 o ysgolion Wrecsam wedi cael eu cynnal Gorffennaf 2016

Gweithgareddau / Digwyddiadau

- Gweithdy Pwysigrwydd y Gymraeg ym Maes Gofal – efo cynrhychiolwyr o'r Cyngor Gofal a Betsi
- Gweithdy Dylunio Dwyieithog
- Gweithdy Hyfforddiant Wordfast (cof gyfieithu)
- Canolfan Bedwyr / Sgiliaith – cynnal cyrsiau hyfforddi
- Eisteddfod Cylch yr Urdd – rhagbrofion llefaru yn CAMU
- Lansio Siarter Iaith CBSW
- Cynhadledd Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain
- Clwb DAW (Clwb Dysgwyr Ardal Wrecsam) - digwyddiadau cymdeithasol bob mis

Swyddfeydd yn cael eu defnyddio gan:

- Staff Dysgu Cymraeg a Cymraeg yn y Gweithle Cambria
- Swyddogion Ymgynghrol y Gymraeg CBSW
- Swyddog Datblygu'r Urdd Sir Wrecsam
- Swyddog Ail iaith cenedlaethol yr Urdd
- Swyddog Cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol – un diwrnod yr wythnos
- Menter Iaith Maelor – Siop-Un-Stop bob bore dydd Mawrth